

Beirniadaeth Y Gadair Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2019

Daeth 7 ymgais i law.

Mae gan bob un o'r beirdd syniad da o beth yw barddoniaeth dda ac ar brydiau mae pob un ohonynt yn cynhyrchu llinellau, delwedddau a darnau cofiadwy.

Wrth dafoli roeddwn yn chwilio am gynildeb, ysgrifennu diriaethol ac, wrth gwrs, cywirdeb iaith.

Ymhlith y goreuon, ceir hyn oll ac, yn ychwanegol, dawn i fynegi eu syniadau yn goeth and yn farddonol.

Dosbarth 3

Dilys: Cerdd o fawl i Ynys Enlli mewn mydr ac odl. Mae'n gerdd hoffus a didwyll iawn ac o dacluso'r gystrawen a chywirow ambell wall, buasai'n dringo i ddosbarth uwch.

Ac yng nghusanau'r heulwen braf / mi deimlaf yr awelon, / wrth i mi groesi dros y d[ŵ]r / yng nghwmni pereri[n]ion.

Gwelir y bardd ar ei orau ac ar ei fwyaf esgeulus yn y darn uchod.

Colomen Wen: Cerdd am offeren enwog Karl Jenkins i feirw'r rhyfel mawr. Cerdd yn y wers rydd. Mae yma gyffyrddiadau da megis 'staccato'r crosiet du fel bwled'. Serch hynny, mae tueddiad yma i roi ansoddair o flaen berfenw ac y mae'r gystrawen weithiau yn wallus. Ar ei orau mae'r bardd yn llwyddiannus iawn ,fel yn y dyfyniad uchod, a phetai'n rhoi inni fwy o'r canu diriaethol yma, byddai'n dringo'n uwch yn y gystadleuaeth.

Dosbarth 2

Oriel y Cof: Cerdd bwerus am berthynas yn colli ei chof – efallai oherwydd dementia. Mae gan y bardd ddawn i greu delwedddau cryfion sy'n talu am eu lle. Efallai nad yw'r testun yn newydd ond mae dawn ddigamsyniol gan y bardd hwn. O dacluso ambell ymadrodd megis 'a minnau'n llymeitian yn llawen' a 'fflam kannwyll cysylltedd' sy'n ymadroddion nad ydynt yn cyfrannu at y gerdd, buasai'r gerdd hon yn y dosbarth cyntaf.

'Unwaith / bu yng nghôl y tir mawr / lle'r oedd ffynhonnau'n diwel diferion clir i wydr y cof,....'

Dosbarth 1

Mel: Cerdd yn y wers rydd. Mae yma ddelweddau cryfion a disgrifiadau gonest a chofiadwy o hen fenyw ddigartref. ‘Toreth o fagiau plastig / a phapurau newydd / yn gestyll o gysur...’. Dyma fardd da iawn a allai wella ei gerdd drwy ystyried ei atalnodi’n fwy gofalus rhag gôr ymestyn rhai penillion.

‘wedi casglu holl froc-môr / ei byd at ei gilydd, / codai yn ddi-brotest / gan chwilio am ynys arall.’

Cyfeiliog: Awdl fer a gafwyd gan y bardd hwn. Awdl rymus gan gynganeddwr medrus. Mae’n sôn am ferch a fabwysiadwyd ac a ddaeth i adnabod ei mam geni yn ddiweddarach. Mae’n fardd da sy’n gwybod gwerth ail-adrodd geiriau pwerus. Mae yma ambell wall bychan, sy’n drueni gan fod y gerdd yn dod yn agos iawn at y Gadair.

O gilio pob dirgelwch – ynys bell, / ynys byd hawddgarwch, / cilio’r llaid, fu cael o’r llwch / agoriad gwir frawdgarwch.

Helygen: Cerdd yn y wers rydd yn olrhain taith bywyd. Mae’r bardd yn sôn am adael ei ardal enedigol ‘...gwadnwn / balmentydd chwâl / y strydoedd cefn / yn ddig am gael ehedeg.....’. Mae’r bardd yn deall gwerth delweddau cryfion megis ‘...lwythi o atgofion yn falast...’. Ar ei orau mae’n fardd da iawn ond weithiau mae’n meddwi ar y ddawn honno ac yn pentyrru geiriau nes colli ystyr y ddelwedd e.e. wedi i’r holl oriau consurio anwylyd....’. Serch hynny, mae’n gerdd dda a ddaeth yn agos iawn at y gadair.

Ffion: O’r cychwyn gwelwn ein bod yng nghwmni bardd da iawn a gynhyrchodd awdl gron a chynnil. Gŵyr y bardd hwn sut i ymatal rhag gormodiaith ac i gadw ei ddelweddau’n ddiriaethol ac uniongyrchol. Awdl am ferch yn cael ei hynysu oherwydd priodas ei rhieni yn chwalu sydd ganddo. Mae’n adrodd y stori o safbwynt y tad-cu sy’n gweld yr hyn sy’n digwydd. O’r geni: ‘Un wyrth ar ddydd o chwerthin - un tad cŵl / un tad-cu yn frenin, un wyres, Ffion Erin, / yn y pram yn drysor prin.’

Ac wedyn wrth dyfu:

‘Amser yn llawn pleserau – o arwain / y chwarae am oriau, / yno’n hawdd hi yn mwynhau / yn undod gyda’i ffrindiau’.

Ond wedyn daw’r gofid: ‘yna bu’n dechrau poeni / am anghydfod yn codi / yn annedd ei rhieni.’

A’r ynysu wedyn:

Hi yn eiddgar am gariad – o bydew / ei byd di-gyfeiriad, / yn methu hwyl mam a thad.’

Dyma fardd a lwyddodd i gyfannu fy nisgwyliadau fel beirniad. Mae'n gynnwl, yn grefftus a chywir a llwyddodd i gyfleu ei neges yn ddiriaethol ac yn farddonol. Mae'n llwyr deilwng o'r gadair. Llongyfarchiadau mawr i Ffion.

Gwenallt Llwyd Ifan